

Anrhegion Siôn Corn

O fewn y profiad dysgu yma fe wnaethom ganolbwyntio ar bwysu a mesur. Mae croeso er hynny i chi a'ch plant ddefnyddio'ch dychymyg a datblygu sgiliau eraill o fewn y thema hwyliog hon. Mae'r weithgaredd yn rhan o'r cyd-destun ehangach o greu sled i Sion Corn.

Aethom ati i greu clorian cydbwysu fel rhan o'r sled. Yn gyntaf, roedd yn rhaid ceisio cael y sled i gydbwysu. Crëwyd y glorian gyda phlanc o bren a system golyn neu pivot syml, a ellir ei greu gydag unrhyw ddarnau rhydd. Mae'n bwysig bod y plant yn cael y cyfle i greu clorian eu hunain, i ddewis eu hoffer, i gyd-weithio ag eraill ar ddatrys problem ac i feddwl yn greadigol ac yn feirniadol wrth adeiladu'r glorian. Gellir gwneud y dasg yn anoddach yn dibynnu ar allu ac oedran eich plant.

Gellir cynnal gweithgaredd cydbwysu syml neu bwysu'r anrhegion yn unigol mewn gramau gan ddefnyddio clorian pwysu cesys gwyliau, clorian ddigidol ac ati. Gellir defnyddio amrywiaeth o eitemau wedi'u lapio i herio cysyniadau trwy gael rhai eitemau o'r un siâp ond bod rhai yn drymach neu yn ysgafnach na'i gilydd. Er mwyn gwneud y thema'n berthnasol i'r plant gallwch, er enghraifft, gallwch nodi'r her bod angen ceisio gofalu nad yw sled Siôn Corn yn troi drosodd neu ei bod yn anghytwys cyn hedfan rhag ofn i'r holl anrhegion ddisgyn o'r sled!

Mae'r her gydbwysu hon yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau mathemategol:

Fel rhan o'ch rôl o hwyluso'r dysgu byddwch yn cyflwyno ac yn atgyfnerthu iaith fathemategol.

Siapiau 3D – enwau a phriodweddau siapiau 3D

Cydbwysedd a Phwysau.

Adio - adio pwysau at ei gilydd i gael cyfanswm neu ar lefel syml adio'r nifer yr anrhegion neu eu cyfrif.

Mesurau safonol ac ansafonol – cyfleoedd o fewn cyd-destun dilys a diddorol.

Trefnu anrhegion o'r ysgafnaf i'r trymaf neu'r mwyaf i'r lleiaf.

Cofnodi mathemategol (e.e. tabl pwysau)

Amcangyfrif – os yw rhywbeth yn ysgafnach/yn drymach neu'n cydbwysu neu amcangyfrif faint mae anrheg yn ei bwysu o ran sawl gram neu sawl kg.